GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A465 (GLANBAIDEN, SIR FYNWY I FRYN-MAWR, BLAENAU GWENT) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 2026

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A465, neu gerllaw iddi, rhwng Glanbaiden, Sir Fynwy a Bryn-mawr, Blaenau Gwent.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn.

Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen. Sylwch na chaniateir i gerbydau sy'n 2.9 metr o led neu fwy ddefnyddio'r llwybr arall. Os oes angen iddynt deithio yn ystod y cyfnod pan fydd y darnau o'r gefnffordd ar gau, dylent barcio mewn lleoliad addas hyd nes y gellir eu hebrwng drwy'r safle gwaith.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 9 Tachwedd 2026. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos (20:00 o'r gloch hyd 06:00 o'r gloch) o 9 Tachwedd hyd 6 Rhagfyr 2026, neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

C WYNN
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

THE A465 TRUNK ROAD (GLANBAIDEN, MONMOUTHSHIRE TO BRYNMAWR, BLAENAU GWENT) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2026

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A465 trunk road between Glanbaiden, Monmouthshire and Brynmawr, Blaenau Gwent.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Notice.

The alternative route is described in the Schedule. Please note that vehicles of, or over, 2.9 metres wide are not authorised to use the alternative route. Should they need to travel during the hours of closure, they should park up in a suitable location until such time that they can be escorted through the works site.

The Order comes into force on 9 November 2026. The temporary prohibition is expected to operate overnight (20:00 – 06:00 hours) from 9 November until 6 December 2026, or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above, it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work begins.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

C WYNN
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

1. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gylchfan Glanbaiden, Sir Fynwy hyd at drwyniad y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyfnewidfa Bryn-mawr, Blaenau Gwent.

2. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gylchfan Glanbaiden, Sir Fynwy.

3. Y darn o'r ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd Saleyard, Sir Fynwy.

Y llwybr arall

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yr effeithir arnynt gan gau'r darn o'r gerbytffordd a'r darn o'r ffordd ymuno ym mharagraffau 1 a 2 fydd gadael yr A465 tua'r gorllewin wrth Glanbaiden ac ymuno â'r A465 tua'r dwyrain i Lan-ffwyst, gadael yr A465 a mynd ar yr A4143 tua'r gogledd i Gylchfan Union Road, y Fenni, yr A40 tua'r gorllewin i Gylchfan Tarrell, Aberhonddu, yr A470 tua'r de i Gylchfan Cefn Coed, Merthyr Tudful a'r A465 tua'r dwyrain tuag at Gilwern.

Dylai cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yr effeithir arnynt gan gau'r darn o'r ffordd ymuno ym mharagraff 3 ymuno â'r A465 tua'r dwyrain wrth Gyffordd Saleyard ac yna dilyn y llwybr a ddisgrifir uchod.

SCHEDULE

1. The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit slip road at Glanbaiden Roundabout, Monmouthshire to the nosing of the westbound entry slip road at Brynmawr Interchange, Blaenau Gwent.

2. The length of the westbound entry slip road at Glanbaiden Roundabout, Monmouthshire.

3. The length of the westbound entry slip road at Saleyard Junction, Monmouthshire.

Alternative route

The alternative route for westbound vehicles affected by the closures at paragraphs 1 and 2 is to leave the westbound A465 at Glanbaiden and join the eastbound A465 to Llanfoist, exit the A465 and take the northbound A4143 to Union Road Roundabout, Abergavenny, westbound A40 to Tarrell Roundabout, Brecon, southbound A470 to Cefn Coed Roundabout, Merthyr Tydfil and eastbound A465 towards Gilwern.

Westbound vehicles affected by the closure at paragraph 3 should join the eastbound A465 at Saleyard Junction then follow the route described above.